

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhannau 4 a 6

## Darparu Gwylliau Byrion i Blant

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid y modd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ateb anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Daw i rym ym mis Ebrill 2016.

Rhydd y Ddeddf lais cryfach i bobl a rheolaeth wirioneddol dros y cymorth y mae arnynt ei angen er mwyn symud y rhwystrau i'w lles. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynt i atal anghenion rhag troi'n argyfwng, ac mae'n annog buddsoddi adnoddau yn y tymor byr, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus yn gyffredinol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hybu integreiddiad rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cael canlyniadau lles gwell.

Mae'r rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n gysylltiedig â Rhannau 4 a 6 yn rhoi eglurder a chyfeiriad sut i ateb angen gofal a chymorth (Rhan 4) a lletya plentyn (Rhan 6). Rhydd y briff technegol hwn grynodedb byr o'r dyletswyddau hyn a sut y maent yn perthyn i'w gilydd, ond nid yw'n ddogfen gyfreithiol.

### Cysylltiadau allweddol:

#### **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015**

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1335/pdfs/wsi\\_20151335\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1335/pdfs/wsi_20151335_mi.pdf)

#### **Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/pdfs/wsi\\_20151818\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/pdfs/wsi_20151818_mi.pdf)

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

#### **Cod Ymarfer ynghylch ateb angen (Rhan 4)**

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4cy.pdf>

#### **Cod Ymarfer ynghylch plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya (Rhan 6)**

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4cy.pdf>

### Crynodeb o'r dyletswyddau

Mae Adran 37, Rhan 4, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu gofal a chymorth i ateb anghenion gofal a chymorth plentyn. Mae adran 39 yn cynnwys dyletswydd i hwyluso'r ffordd i blant gael eu magu gan eu teuluoedd.

Mae Adran 76(1)(c), Rhan 6, yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu llety ar

gyfer unrhyw blentyn o fewn ei ardal sy'n ymddangos i'r awdurdod fel un sydd angen llety, oherwydd bod y person sy'n gofalu am y plentyn wedi cael ei atal (am ba reswm bynnag, naill ai dros dro neu'n barhaol) rhag darparu llety neu ofal addas ar gyfer y plentyn.

Cyfeirir at blentyn, y mae'r awdurdod, wrth ymarfer unrhyw rai o'i swyddogaethau sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, **ac eithrio swyddogaethau dan Ran 4**, yn darparu llety ar ei gyfer am gyfnod di-dor o fwy na 24 awr, fel plentyn 'sy'n derbyn gofal' (LAC) (Adran 74).

Gellir darparu gwylliau byrion ar gyfer plant anabl a phlant eraill o dan naill ai adran 37 (Rhan 4) neu adran 76(1)(c) (Rhan 6). Rhaid i awdurdod lleol fod yn glir o dan ba adran y mae'n trefnu'r seibiant byr.

**Rhaid** i leoliadau o dan adran 76 gydymffurfio â Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn cynnwys addasiadau i'r broses gynllunio gofal, lleoli ac adolygu pan fydd plentyn yn derbyn cyfres wedi ei chynllunio ymlaen llaw o wyliau byrion yn yr un lleoliad.

### Beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei wneud?

Mae'r ddyletswydd i ddarparu cynllun gofal a chymorth o dan Ran 4 yn dilyn asesiad o anghenion gofal a chymorth y plentyn o dan Ran 3. Rhagdybir bod gan blentyn anabl anghenion gofal a chymorth sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir gan deulu'r plentyn. Os bydd anghenion yn cyfarfod â'r meini prawf cymhwyster, caiff cynllun gofal a chymorth ei ddatblygu a'i gyflawni gan yr awdurdod lleol.

Mae Rhan 3 hefyd yn cynnwys dyletswydd i asesu anghenion gofalwyr a gweld a ellir ateb

anghenion cymwys drwy gynllun gofal o dan Ran 4. Am y tro cyntaf, mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt o ran eu hawl i gael asesiad a chynllun gofal statudol os oes ganddynt anghenion cymwys.

Pan ddarperir y seibiant byr o dan Ran 6, bydd y plentyn yn dod yn blentyn sy'n 'derbyn gofal' ar ôl cyfnod di-dor o 24 awr. Fel arfer, darperir seibiant byr, dan 24 awr o hyd, o dan Ran 4.

Pan ddarperir y seibiant byr o dan Ran 6, lleoliad fydd hwn yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. **Rhaid** gosod y plentyn gyda gofalwr maeth cymeradwy, mewn cartref plant cofrestredig, neu wneud trefniadau priodol eraill.

Mae addasiadau'n berthnasol pan fydd yr awdurdod lleol wedi trefnu i osod y plentyn (o dan Ran 6) mewn cyfres o drefniadau tymor byr gyda'r un person neu yn yr un llety, ac mae'r trefniant yn gyfryw fel na fwriedir i'r un lleoliad bara mwy na phedair wythnos, ac mae'r plentyn yn dychwelyd adref i ofal ei rieni ef/hi ar ddiwedd pob lleoliad.

Nid yw'r addasiadau'n berthnasol pan fydd y plentyn yn destun gorchymyn gofal o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989.

Nid yw'r addasiadau'n berthnasol os bydd y lleoliadau'n para am fwy na chyfanswm o 120 o ddiwrnodiau yn unrhyw gyfnod o 12 mis.

### **Ffitio gyda'r Ddeddf**

Bydd gwyliau byrion a ddarperir o dan adran 37 yn dilyn asesiad o dan **Ran 3** a phenderfyniad cymhwyster o dan **Ran 4**. Byddant yn ffurfio rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn o dan **Ran 4**.

Lleoliadau o dan **Ran 6** yw gwyliau byrion a ddarperir o dan adran 76, ac maent yn destun gweithdrefnau cynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion (yn amodol ar addasiadau lle bo'n briodol).

### **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?**

Dylid datblygu gwyliau byrion fel rhan o'r adnoddau a'r cymorth cyffredinol sydd ar gael i blant a theuluoedd i atal anghenion rhag cynyddu. Maent yn galluogi teuluoedd i ofalu am eu plant ac yn atal yr angen i blant dderbyn gofal.

Mae'r dyletswyddau o dan Ran 4 yn golygu y gall awdurdod lleol ddarparu gwyliau byrion ar gyfer plentyn anabl heb i'r plentyn hwnnw orfod dod i

'dderbyn gofal' yn ffurfiol. Bydd y gwyliau byrion yn rhan o'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer y plentyn. Efallai y bydd y gwyliau byrion hyn yn galluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau diogel ac ysgogol y tu allan i gartref y teulu, neu'n rhoi seibiant i'r rhieni oddi wrth ofalu.

Mae'r dyletswyddau o dan Ran 6 yn golygu, pan fo lles y plentyn yn debygol o gael ei amddiffyn a'i hyrwyddo orau gan statws 'derbyn gofal', y caiff y gwyliau byrion eu trin fel lleoliadau yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

Dylai'r asesiad o anghenion y plentyn fod yn sail i'r penderfyniad p'un a ddylai seibiant byr gael ei ddarparu o dan Ran 4, ynteu a ddylai fod yn lleoliad o dan Ran 6. Dylai'r asesiad hwn gymryd gallu'r rhieni i ofalu am y plentyn i ystyriaeth, cyd-destun y teulu ehangach, dymuniadau a theimladau'r rhieni a'r plentyn a natur y gwasanaeth sydd i gael ei ddarparu.

Mae'r ffactorau sydd i gael eu hystyried wedi eu gosod allan yn y cod ymarfer. Y cwestiwn allweddol yw sut i hyrwyddo a diogelu lles y plentyn yn fwyaf effeithiol a darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r plentyn i aros i fyw gyda'i deulu yn y tymor hir.

Bydd yr addasiadau, sy'n berthnasol pan fo awdurdod lleol yn gosod plentyn o dan Ran 6 mewn cyfres o wyliau byrion wedi eu cynllunio ymlaen llaw yn yr un lleoliad, yn sicrhau bod y gofynion yn fwy cymesur ag anghenion plant a osodir mewn amgylchiadau o'r fath. Maent yn adlewyrchu'r rôl ganolog barhaus sydd gan y rhieni mewn lleoliadau o'r math hwn.

### **Gwybodaeth bellach**

#### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5664>

#### **Gwybodaeth bellach oddi ar wefan Llywodraeth Cymru:**

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?skip=1&lang=cy>

#### **Canolfan Wybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru:** <http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>